


Llwybr Datblygu'r Gymraeg



2023-24

Hedydd Jones

hedydd.jones@pcydds.ac.uk

Darlith 5

Dydd Mawrth 7^{fed} o
Dachwedd 2023



Nod ac amcanion

- Adolygu gwallau cyffredin sillafu.
- Arddodiaid a'r treigladd meddal.
- Arddodiaid a berfenwau.



Adolygu gwallau sillafu.



Un 'n' neu ddwy 'nn'?

Yr unig lythrennau sy'n dyblu yn Gymraeg yw 'n' neu 'r'

Mae'r llythrennau yn dyblu ar ôl yr acen yn unig. Mae'r acen fel arfer ar y sillaf olaf ond un mewn gair.

Felly mae dwbl 'n' yn diflannu wrth ymestyn y gair...

ennill > enillodd

Absennol > absenoldeb

<https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/38881169>



Un 'n' neu ddwy 'nn'?

- Pa un sy'n gywir?

1. prynu

2. prynnu

1. crynnu

2. crynu

1. annwyl

2. anwyl

1. gofynnais

2. gofynais

1. penderfynnu

2. penderfynu

1. arbennig

2. arbenig

1. ennill

2. enill

1. llwyddiant

2. llwyddiannt

1. llwyddianus

1. llwyddiannus







Gwallau cyffredin – 'f' neu 'ff'



1. ffonio
2. Ffrangeg
3. i ffwrdd
4. Addysg Gorfforol
5. Addysg Grefyddol
6. ysgrifennu
7. anffodus
8. effaith
9. ffreutur
10. diflannu



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE

Mae'r to bach yn ymestyn sŵn y
llythyren.
To bach neu beidio?



pêl



sgwâr



cŵn

bws




gŵyl



tŷ



to



trên



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE

To bach/ Acen grom





Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE

Geiriau tebyg.

1.mor/ 2.môr



1.ffon/2. ffôn



1.glân/2. glan



1.llun/2.llyn



Geiriau tebyg.

Maen

e.e. Maen nhw yn y tŷ.

Maen nhw'n oer h



Geiriau tebyg.

Cywirwch y brawddegau canlynol:

Rydw i'n meddwl mae fi yw'r olaf.

Mai Cai a Mabon yn ffrindiau.

O ble mair cyflwynydd yn dod?

Mae'n bwysig gwyboda hwn yw'r tro olaf

y cawn gyfle

Beth sy ar goll?

-
1. _____ hi'n ddiwrnod stormus.
 2. _____ ddydd Mercher yfory.
 3. Rydw i'n gwybod _____ Caerdydd ydy prifddinas Cymru.
 4. _____ e'n fachgen siaradus.
 5. _____ nhw'n gweithio'n galed yn eu grwpiau.




BETH YW ARDDODIAD?

Mae arddodiad yn dangos y berthynas rhwng gair ac enw neu ragenw

Ble mae'r bêl?

Mae'r bêl YN y
bocs

arddodiad



Ymarfer

Defnyddiwch feiro neu bensil fel gwrthrych

Sawl arddodiad allwch chi feddwl amdany'n nhw?

Mae'r beiro 'ar' y bwrdd...





YR ARDDODIAID CYFFREDIN

Mae treigladau meddal ar ôl yr arddodiaid yma:

am	ar	at	gan
dros	drwy	wrth	dan
heb	hyd	i	o



➤ Ydych chi wedi lawrlwytho'r ap
defnyddiol yma?



TREIGLAD MEDDAL



TASG: ysgrifennwch y 9
llythyren sy'n treiglo'n feddal ar
bapur. Wrth wyllo'r fideo,
nodwch sut mae'r llythrennau
yn treiglo'n feddal...

p >

t >

c >

b >

d >

g >

ll >

m >

rh >



Ymarfer

1. Ysgrifennwch bum brawddeg yn cynnwys arddodiad cyffredin.
2. Ond rydych yn anghofio treiglo'n feddal yn dilyn yr arddodiaid.
3. Cyfnewidiwch eich brawddegau â rhywun arall.
4. Chwiliwch am y gwallau a chywirwch y brawddegau gan gofio treiglo'n feddal ar ôl yr arddodiaid.

Ymarfer

Beth sy'n mynd yn y bwlch? A oes yna wall arall hefyd?

1. Dw i'n chwilio am _____ newydd i mynd i'r ysgol. (bag)

2. Rydyn ni'n mynd ar _____ i Llangrannog wythnos nesaf. (taith)

Ymarfer

Beth sy'n mynd yn y bwlch? A oes yna wall arall hefyd?

3. Rydw i wedi darllen cerdd gan _____ talentog. (bardd)

4. Doedd Wil heb _____ ei waith cartref erbyn heddiw. (gwneud)



'Mewn'

(wrth gyfeirio at enw amhenodol)

unrhyw eiriadur

mewn geiriadur

Chwiliodd hi am ystyr
y gair **mewn** geiriadur.

unrhyw gaffi

mewn caffi

Bwytais i ginio **mewn**
caffi yn y dref.

unrhyw awyren

mewn awyren

Teithion ni i Sbaen
mewn awyren.

Cofiwch: Does dim treigladd ar
ôl 'mewn'

'Yn'

(wrth gyfeirio at enwau penodol)

lle penodol +
treigladd trwynol

yn + Treforys

Mae Twm yn byw **yn**
Nhreforys.

ysgol benodol

yn + Ysgol y Fro

Mae Rhys yn dysgu **yn**
Ysgol y Fro.

marchnad benodol

**yn + y +
marchnad**

Prynon ni lysiau **yn y**
farchnad ddoe.

Cofiwch: Y fannod **y / yr / r**
(the) sy'n dilyn 'yn'.

Ymarfer

Felly, pa un o'r canlynol sy'n gywir?

1. Wyt ti'n dod adref ein car ni heno?
2. Rydw i'n gweithio ysgol.
3. Bwytais fy nghinio swyddfa heddiw.
4. Bob dydd Sadwrn, rydw i'n gweithio M&S.
5. Wyt ti'n mynd i'r bore coffi ystafell yr athrawon?



Ble wyt ti'n dod-o?

A minnau ar wyliau eleni,
Ces air o gyngor gan ieithgi:
 'Paid dodi arddodiad
 Ar ddiwedd gosodiad.'
Atebais mewn eiliad, 'Sa'i 'n mynd i!'

Emyr Davies



Arddodiad ar ddiwedd brawddeg?


Dyw arddodiad syml byth yn ymddangos ar ddiwedd brawddeg.

Un ffordd o gywiro hwn yw symud yr arddodiad yn agosach at ddechrau'r frawddeg!

e.e.

Ble wyt ti'n dod o?

O ble wyt ti'n dod?





Ymarfer


Cywirwch y cwestiynau yma:

Ble wyt ti'n mynd i?

Faint wyt ti'n mynd am?

Pa wers chi wedi dod o?

Chi'n deall be dwi'n siarad am?





Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE


Arddodiaid gyda berfenwau

Pa arddodiad i
ddefnyddio gyda
berfenwau?

Llyfr defnyddiol (£5.99)



Arddodiaid gyda berfenwau



Arddodiaid gyda berfenwau

Gallwn ddefnyddio arddodiaid ar ôl berfenwau:

siarad â
dweud wrth

gwrando ar
ysgrifennu at

meddwl am
aros am

Mae angen defnyddio'r arddodiaid cywir gyda berfenwau oherwydd mae'n effeithio ar yr ystyr.
e.e.


edrych **am**

edrych **ar**

Rydw i'n edrych **am** fy nghi sydd ar goll.

Rydw i'n edrych **ar** y teledu.

Pa arddodiad?






Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE



mynd i'r deintydd
mynd at y deintydd

Ymarfer

Ysgrifennwch yr arddodiad cywir yn y bylchau.

- 1) Ysgrifennodd Siôn _____ yr Aelod o'r Cynulliad i gwyno am y sefyllfa.
- 2) Roedd hi wedi sylwi _____ y ddamwain wrth basio yn ei char.
- 3) Roeddwn i'n gwranddo _____ y radio pan glywais y gân.
- 4) Mae hi'n mynd _____ y deintydd er mwyn gwella ei dannedd.
- 5) Gwaeddodd yr athro _____ y disgyblion _____ beidio â gwranddo.
- 6) Wyt ti wedi sôn _____ y parti _____ dy ffrindiau?

Y Portffolio Cymraeg

PAP:
Dyma eich cyfle i
gasglu'r dystiolaeth
ar gyfer "Addysgu a
Dysgu".

Tra eich bod chi yn y Brifysgol neu yn yr ysgolion ar eich Profiad Addysgu Profesiynol rydych yn cael eich annog i gadw tystiolaeth o sut rydych yn datblygu pob un o'r sgiliau iaith canlynol

- Llafar
- Gwrando
- Darllen
- Ysgrifennu

Yn ychwanegol at hyn mae angen tystiolaeth o'u sgiliau Addysgu a Dysgu (e.e.drwy recordio gwers / cynlluniau gwersi, a.y.y.b.).

Y Portffolio Cymraeg yw eich tystiolaeth fydd yn cael ei asesu.

Dyddiad cyflwyno: 5ed o Fehefin 2024

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru / Education for Wales

Rhagoria
CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG

Portffolio Fframwaith Cymwyseddau Iaith i Athrawon

Rhif Myfyriwr: _____

Rhaglen (ticiwch y blwch perthnasol):


TAR Cynradd	TAR Uwchradd	BA Addysg
-------------	--------------	-----------

	Math o dystiolaeth	Rhesymau dros gyflwyno'r dystiolaeth
SIARAD		
GWRANDO		
DARLLEN		
YSGRIFENNU		
Addysgu a Dysgu		

Cyngor doeth wrth baratoi'r portffolio

- Tystiolaeth BERTHNASOL – rhaid i'r dystiolaeth fod yn berthnasol i'r disgrifiadau lefel.
- DIGON o dystiolaeth o'r 4 sgil a'ch gallu o ran y dulliau addysgu a dysgu, ond peidiwch goriwytho. Ni ddylech gyflwyno mwy na 5 adnodd ar gyfer unrhyw sgil. Meddyliwch PAM rydych chi'n cyflwyno pob darn.
- Gwrando – os ydych yn cyflwyno tasgau gwrando fel tystiolaeth, rhaid i chi gynnwys y ffeil sain yn ogystal â'ch atebion i'r cwestiynau, neu fydd y dystiolaeth ddim yn profi eich gallu gwrando chi.
- Ysgrifennu – cynnwys aseiniad sy'n dangos eich gallu i ysgrifennu yn y Gymraeg a'ch gallu i gyrraedd lefelau uchaf y sgil darllen.
- Addysgu a Dysgu: Ar y lefelau uchaf rhaid i chi ddangos 'amrediad o arddulliau' – dewiswch eich tystiolaeth yn ofalus!
- Os ydych chi'n cyflwyno darn o dystiolaeth sy'n berthnasol ar gyfer sawl sgil, nodwch hynny yn y tabl uchod. Dim ond unwaith fydd angen i chi lwytho'r ffeil i'r PDP.
- Dangoswch eich hun ar eich gorau yn y portffolio – dewiswch eich tystiolaeth yn ddoeth!

- Rhaid i chi gyflwyno'r ffurflen hon fydd yn rhestru yr holl dystiolaeth rydych chi'n ei gyflwyno.
- Cyflwyno ar y PDP.
- Bydd angen esboniad byr iawn i gyfiawnhau pam bod y dystiolaeth yn addas ar gyfer y sgil.
- Does dim problem os oes un darn o dystiolaeth yn profi sawl sgil wahanol. e.e Siarad, Gwrando ac AD.
- Darllenwch y 'cyngor doeth' wrth baratoi'r portffolio.



Darlith nesaf:
9^{fed} o Ionawr 2024
11- 1 y.p.

